# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

## RHAN 1

RHEOLEIDDIO TAI RHENT PREIFAT

*Trwyddedu*

### 21 Penderfynu ar gais

(1) Pan fo awdurdod trwyddedu yn fodlon bod y ceisydd yn cwrdd â'r gofynion a nodir yn adran 19, rhaid iddo roi trwydded i'r ceisydd.

(2) Ar ôl rhoi'r drwydded rhaid i'r awdurdod trwyddedu—

(a) neilltuo rhif trwydded i ddeiliad y drwydded;

(b) cofnodi rhif y drwydded yn y drwydded;

(c) cofnodi'r dyddiad y rhoddwyd y drwydded yn y drwydded;

(d) rhoi'r drwydded i ddeiliad y drwydded.

(3) Pan fo awdurdod trwyddedu yn gwrthod cais, rhaid iddo hysbysu'r ceisydd—

(a) bod y cais wedi ei wrthod a'r rhesymau pam y'i gwrthodwyd;

(b) am hawl y ceisydd i apelio (gweler adran 27).

(4) Rhaid i'r awdurdod trwyddedu benderfynu ar gais o fewn cyfnod rhagnodedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 21 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** A. 21 mewn grym ar 1.12.2014 at ddibenion penodedig gan O.S. 2014/3127, ergl. 2(b), **Atod. Rhn. 2**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 27/04/2015. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 21.